Comisiwn y Gyfraith

Diwygio'r gyfraith

# Dulliau Angladdol Newydd

## Crynodeb o'r Adroddiad

# Dulliau Angladdol Newydd: Crynodeb o’r Adroddiad

## COMISIWN Y GYFRAITH

1.1 Mae Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn gorff annibynnol a gafodd ei greu gan Ddeddf Comisiynau’r Gyfraith 1965, a chanddo ddyletswydd i adolygu’r gyfraith a chyflwyno argymhellion i’r Llywodraeth i ddiwygio’r gyfraith lle bo angen. Dyma’r corff swyddogol o ran diwygio’r gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr.

1.2 Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyhoeddiadau hygyrch. Os oes arnoch angen i'r crynodeb hwn fod ar gael mewn fformat gwahanol, anfonwch e-bost at: bcnfm@lawcommission.gov.uk.

## DULLIAU ANGLADDOL NEWYDD

1.3 Mae dull angladdol newydd yn ddewis amgen i’r dulliau angladdol sydd wedi ennill eu plwyf, sef claddu, amlosgi a chladdu yn y môr. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw brosesau rheoleiddio penodol ar ddulliau angladdol newydd yng Nghymru na Lloegr. Defnyddir rhai dulliau angladdol newydd mewn rhannau eraill o’r byd.

## PWRPAS EIN HADRODDIAD AR DDULLIAU ANGLADDOL NEWYDD

1.4 Rydym wedi cyhoeddi Adroddiad, sy’n dod â phrosiect Comisiwn y Gyfraith ar Ddulliau Angladdol Newydd i ben yng Nghymru a Lloegr. Mae’r Adroddiad yn cynnwys ein hargymhellion terfynol ar gyfer diwygio. Mae ar gael yn https://lawcom.gov.uk/project/new-funerary-methods.

1.5 Mae claddu, amlosgi a dulliau angladdol newydd yn faterion y mae gan Senedd Cymru (y ddeddfwrfa ddatganoledig yng Nghymru) y pŵer i gyflwyno deddfau newydd yn eu cylch. Yn yr Adroddiad, rydym yn gwneud argymhellion i Lywodraeth y DU yng nghyswllt Lloegr a Llywodraeth Cymru yng nghyswllt Cymru.

1.6 Rydym yn argymell fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer rheoleiddio dulliau angladdol newydd yng Nghymru a Lloegr. Mater i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fydd penderfynu sut i fwrw ymlaen â’n hargymhellion.

1.7 Ochr yn ochr â’n Hadroddiad, rydym wedi cyhoeddi dau Fesur drafft, un ar gyfer Lloegr ac un ar gyfer Cymru. Os caiff y rhain eu pasio gan Senedd y DU a Senedd Cymru, yn y drefn honno, byddant yn gweithredu ein hargymhellion ar gyfer diwygio.

1.8 Nid ydym yn ystyried a ddylid rheoleiddio dulliau angladdol newydd penodol o dan y fframwaith. Bydd hwnnw’n gwestiwn i Lywodraeth y DU ac i Lywodraeth Cymru, yn y drefn honno.

## Y CRYNODEB HWN

1.9 Nod y crynodeb hwn o’r Adroddiad yw egluro beth yw pwrpas y prosiect a thynnu sylw at ein prif argymhellion ar gyfer diwygio. Nid yw’n crynhoi’r holl ddiwygiadau rydym yn eu hargymell i’r gyfraith.

1.10 Mae trafodaeth fanwl a’n holl argymhellion ar gyfer diwygio ar gael yn yr Adroddiad llawn. Os ydych chi eisiau gwybod mwy am y gyfraith, neu sut a pham rydym yn meddwl bod angen iddi newid, rydym yn eich annog i edrych ar yr adran berthnasol yn yr Adroddiad.

## AMSERLEN Y PROSIECT AR DDULLIAU ANGLADDOL NEWYDD

1.11 Fe wnaethom ddechrau ein prosiect ar Ddulliau Angladdol Newydd ddechrau 2024. Fe wnaethom gyhoeddi Papur Ymgynghori ar 4 Mehefin 2025. Fe wnaeth ein cyfnod ymgynghori bara tan 4 Medi 2025. Cawsom 124 o ymatebion i’r ymgynghoriad.

1.12 Fe wnaethom gyhoeddi ein Hadroddiad ar 4 Mehefin 2026.

## Y PROSIECT EHANGACH: CLADDU, AMLOSGI A DULLIAU ANGLADDOL NEWYDD

1.13 Mae’r prosiect Dulliau Angladdol Newydd yn rhan o brosiect ehangach o’r enw **Claddu, Amlosgi a Dulliau Angladdol Newydd**. Mae’r prosiect hwnnw’n bodoli oherwydd bod rhanddeiliaid wedi dweud wrthym, mewn ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus agored fel rhan o’n 13eg Rhaglen ar gyfer Diwygio’r Gyfraith yn 2017, fod y gyfraith sy’n rheoli sut rydym yn delio â chyrff pobl marw wedi dyddio ac nad yw’n addas i’r diben.

1.14 Gan fod y materion dan sylw mor eang, mae’r prosiect wedi'i rannu’n dair rhan. Yn ogystal â’r rhan hon, ar **Ddulliau Angladdol Newydd**, mae dwy elfen arall:

(1) **Claddu ac Amlosgi**, sy’n ystyried cyfraith claddu ac amlosgi yng Nghymru a Lloegr, y mae llawer ohoni’n dameidiog, yn gymhleth ac wedi dyddio. Fe wnaethom gyhoeddi ein Hadroddiad ar Gladdu ac Amlosgi ym mis Mawrth 2026;

(2) **Hawliau a Rhwymedigaethau sy’n ymwneud ag Angladdau, Dulliau Angladdol, a Gweddillion**, sy’n ystyried a ddylai penderfyniadau a wnewch am eich corff ar ôl marwolaeth fod yn rhwymol, a sut y dylid datrys anghydfodau ynghylch dulliau angladdol a gweddillion. Dechreuodd y rhan honno ym mis Mawrth 2026.

1.15 Mae rhai materion sy’n ymwneud â’r maes cyfreithiol hwn y tu hwnt i gwmpas y prosiect. Mae’r rhain yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, cofrestru marwolaethau (ac eithrio lle bo hynny’n uniongyrchol berthnasol i ddulliau angladdol newydd), rheoleiddio trefnwyr angladdau, a chyfraith cynllunio ac amgylcheddol.

## STRWYTHUR YR ADRODDIAD

1.16 Mae ein Hadroddiad ar Ddulliau Angladdol Newydd yn dechrau gyda **Geirfa** o dermau. Pennod ragarweiniol yw **Pennod 1**.

1.17 Mae **Pennod 2** yn rhoi trosolwg o’r fframwaith rheoleiddio a argymhellir ar gyfer dulliau angladdol newydd. Ym **Mhennod 3** rydym yn trafod yr egwyddorion canlynol, a fydd yn sail i’r pŵer i wneud rheoliadau: trin gweddillion dynol ag urddas; diogelu’r amgylchedd; a diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd. Mae **Pennod 4** yn

cynnwys rhagor o fanylion ac argymhellion am gwmpas y pŵer rheoleiddio a sut bydd yn gweithio.

1.18 Ym **Mhennod 5**, rydym yn trafod statws dulliau angladdol newydd nad ydynt yn cael eu rheoleiddio o dan y fframwaith. Mae **Pennod 6** yn cynnwys argymhellion am droseddau. Mae **Pennod 7** yn nodi diwygiadau angenrheidiol i ddeddfwriaeth bresennol. Mae ein holl argymhellion wedi'u rhestru ym **Mhennod 8**.

## PAM MAE ANGEN DIWYGIO

1.19 Mae claddu ac amlosgi yn ddulliau angladdol sydd wedi hen ennill eu plwyf. Mae hanes hir i gladdu yn y môr hefyd er nad yw'n cael ei ddefnyddio'n gyffredin yng Nghymru na Lloegr erbyn hyn.

1.20 Mae dulliau angladdol newydd yn ffyrdd amgen o ddelio â chyrff pobl sydd wedi marw, y tu hwnt i'r dulliau angladdol hyn sydd wedi ennill eu plwyf. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oes unrhyw ddulliau angladdol newydd yn cael eu defnyddio yng Nghymru a Lloegr. Yn yr Alban, mae rheoliadau wedi'u cyflwyno'n ddiweddar sy'n galluogi defnyddio hydrolysis alcalïaidd (proses sy'n defnyddio dŵr, cemegau alcalïaidd, gwres a gwasgedd i ddadelfennu corff person ymadawedig).

1.21 Nid oes unrhyw brosesau rheoleiddio penodol ar ddulliau angladdol newydd yng Nghymru a Lloegr. Nid yw defnyddio dulliau angladdol newydd wedi'i wahardd yn benodol yn y gyfraith, er y gall deddfwriaeth ynghylch cofrestru marwolaethau wahardd hyn i bob pwrpas, fel y trafodwn ym **Mhennod 7** yr Adroddiad.

1.22 Dywedodd rhanddeiliaid wrthym eu bod eisiau system reoleiddio er mwyn iddynt allu gweithredu'n ddiogel ac yn gydwybodol, datgloi buddsoddiad, a chynnig mwy o ddewis o ddulliau angladdol i aelodau'r cyhoedd. Bydd rheoleiddio yn helpu i sicrhau bod dulliau angladdol newydd yn cael eu cyflawni'n ddiogel ac yn briodol a bod y rhai sy'n dewis defnyddio dulliau angladdol newydd yn teimlo'n hyderus ynghylch gwneud hynny.

## DATGANOLI I GYMRU

1.23 Nid yw claddu ac amlosgi, na materion y gellid cymryd eu bod yn cyfeirio at ddulliau angladdol newydd, wedi'u cadw'n ôl i Senedd y DU. Mae hyn yn golygu bod y Senedd yn gymwys i ddeddfu yn y meysydd cyfreithiol hyn yng Nghymru.

1.24 Fel y soniwyd uchod, ochr yn ochr â'n Hadroddiad rydym wedi cyhoeddi dau Fil drafft, un ar gyfer Lloegr (y gallai Senedd y DU ei basio, yng nghyswllt Lloegr) ac un ar gyfer Cymru (y gallai'r Senedd ei basio, yng nghyswllt Cymru). Mae'r argymhellion yn ein Hadroddiad wedi'u cyfeirio at Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn y drefn honno.

## BETH YW DULL ANGLADDOL NEWYDD?

### Diffinio a rheoleiddio dulliau angladdol newydd ar wahân i ddulliau angladdol sydd wedi ennill eu plwyf

1.25 Mae dau ddull angladdol newydd ar gael mewn awdurdodaethau eraill. Mae hydrolysis alcalïaidd yn defnyddio dŵr, cemegau alcalïaidd, gwres a gwasgedd i

ddadelfennu meinwe person ymadawedig yn hylif, gan adael esgyrn a dannedd. Mewn compostio dynol, mae corff person ymadawedig yn cael ei roi mewn siambr,neu lestr wedi'i selio, gyda deunydd organig sy'n galluogi proses ddadelfennu gyflymach nag wrth gladdu.

1.26 Mae gwahanol awdurdodaethau wedi mabwysiadu dulliau gwahanol o reoleiddio dulliau angladdol newydd. Mewn rhai, mae'r diffiniad o amlosgi wedi cael ei ehangu i gynnwys dulliau angladdol newydd.

1.27 Ym **Mhennod 2** yr Adroddiad, rydym yn dod i'r casgliad na fyddai ehangu'r diffiniad o amlosgi i gwmpasu dulliau angladdol newydd yn briodol yng Nghymru na Lloegr. Mae diffiniadau cyfarwydd eisoes o gladdu ac amlosgi nad ydynt yn cynnwys dulliau angladdol newydd. Byddai gorfodi dulliau newydd i fod yn rhan o'r diffiniadau a'r cynlluniau rheoleiddio hyn yn gwneud y gyfraith yn fwy anodd ei deall a gallai arwain at lai o ymddiriedaeth a hyder yn y diwydiant angladdau yn ei gyfanrwydd. Pe bai dulliau angladdol newydd yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o ddulliau presennol, gallai hyn arwain at ddryswch a risg na fyddai dymuniadau pobl yn cael eu bodloni.

1.28 Rydym yn argymell y dylai dulliau angladdol newydd gael eu diffinio a'u rheoleiddio ar wahân i ddulliau angladdol sydd wedi ennill eu plwyf.

### Diffiniad o ddull angladdol newydd ("modern")

1.29 Yn ein Papur Ymgynghori, fe wnaethom ystyried beth yw dull angladdol newydd. Fe wnaethom gynnig dros dro am yr elfennau sy'n pennu a ddylai rhywbeth gael ei gynnwys yn y diffiniad o ddull angladdol newydd ai peidio.

1.30 Fe wnaethom ddweud bod dull angladdol newydd yn broses y mae'n rhaid iddi fod yn wahanol i'r dulliau angladdol sydd wedi ennill eu plwyf, sef claddu, amlosgi a chladdu yn y môr, sydd eisoes yn cael eu rheoleiddio.

1.31 Roeddem eisiau sicrhau na ddylai prosesau cadw cyrff (fel rhewi cryogenig) neu ymchwil ar gyrff fod yn ddulliau angladdol newydd. Roeddem yn cynnig dros dro bod dull angladdol newydd yn dadelfennu corff person ymadawedig a'i ddiben yw gwaredu corff person ymadawedig.

1.32 Rydym yn ystyried hyn ymhellach ym **Mhennod 2** o'r Adroddiad. Rydym yn dod i'r casgliad bod y cynnig dros dro a gyflwynwyd gennym yn y Papur Ymgynghori yn crynhoi elfennau craidd dull angladdol newydd y dylid ei adlewyrchu yn y diffiniad cyfreithiol a fabwysiadwyd o dan y fframwaith cyfreithiol newydd.

1.33 Rydym yn argymell y dylai'r diffiniad cyfreithiol o ddull angladdol newydd gynnwys:

(1) proses;

(2) heblaw claddu, amlosgi neu gladdu yn y môr;

(3) sy'n dadelfennu corff person ymadawedig;

(4) a'i nod yw cael gwared ar gorff person ymadawedig (ac nid, er enghraifft, at ddiben cadw neu ymchwilio i gyrff).

1.34 Caiff yr argymhelliad hwn ei roi ar waith yn niffiniadau “dull angladdol” a “dull angladdol modern” yn y Biliau drafft. I gael esboniad pellach am y diffiniadau, gweler **Pennod 2** yr Adroddiad.

1.35 Rydym wedi defnyddio’r gair “modern” yn y Biliau drafft, yn hytrach na “newydd”, oherwydd ni fydd dulliau angladdol sy’n newydd ar adeg ysgrifennu bob amser yn newydd; unwaith y bydd dull wedi cael ei ddefnyddio ers peth amser efallai y bydd yn rhyfedd cyfeirio ato fel dull “newydd”. Fodd bynnag, bydd yn parhau’n “fodern” o’i gymharu â chladdu ac amlosgi, sydd wedi bod yn destun deddfwriaeth ers tro byd. Oni bai ein bod yn cyfeirio at y defnydd penodol o’r term “dull angladdol modern” yn y Biliau drafft, rydym yn parhau i ddefnyddio’r term dull angladdol newydd yn yr Adroddiad, a’r crynodeb hwn. Dyma’r term rydym wedi’i ddefnyddio drwy gydol yr adolygiad hwn, ac mae rhanddeiliaid yn gyfarwydd ag ef.

## TROSOLWG O FFRAMWAITH RHEOLEIDDIO

### Pŵer i gyflwyno rheoliadau

1.36 Gall Deddfau Seneddol a Deddfau Senedd Cymru (y mae’r naill a’r llall yn ddeddfwriaeth sylfaenol) roi pwerau i Weinidogion, neu weithiau i eraill, gyflwyno is-ddeddfwriaeth. Offerynnau statudol (gan gynnwys offerynnau statudol Cymru) yw’r ffurf fwyaf cyffredin ar is-ddeddfwriaeth ac mae rheoliadau yn fath o offeryn statudol.

1.37 Gyda phŵer i gyflwyno is-ddeddfwriaeth er mwyn rheoleiddio dulliau angladdol newydd unigol, bydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, yn y drefn honno, yn gallu ymateb wrth i ddulliau newydd ddod i’r amlwg, heb orfod pasio deddfwriaeth sylfaenol bob tro y bydd dull newydd yn cael ei reoleiddio. Fodd bynnag, bydd y drefn reoleiddio ar gyfer pob dull yn cael ei nodi mewn is-ddeddfwriaeth, gan sicrhau ei bod yn glir. Felly, bydd y dull o reoleiddio dulliau angladdol newydd yn debyg i’r dull ar gyfer amlosgi, gyda rhai darpariaethau wedi’u nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol ond y rhan fwyaf o’r manylion mewn is-ddeddfwriaeth.

1.38 Mae’n briodol mai’r Ysgrifennydd Gwladol ddylai fod â’r pŵer i gyflwyno rheoliadau ar gyfer Lloegr, a Gweinidogion Cymru ddylai fod â’r pŵer i gyflwyno rheoliadau ar gyfer Cymru. Mae hyn yn unol â’r ffordd y mae pwerau cyflwyno rheoliadau ar gyfer Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cael eu mynegi fel arfer.

1.39 Rydym yn argymell y dylai fod gan yr Ysgrifennydd Gwladol (o ran Lloegr) a Gweinidogion Cymru (o ran Cymru) y pŵer i gyflwyno rheoliadau ynghylch dulliau angladdol newydd unigol.

### Trwyddedu

1.40 Mae gan lawer o ranbarthau neu daleithiau yn UDA a Chanada systemau trwyddedu ar gyfer amlosgi, ac yn aml ar gyfer gwasanaethau eraill sy’n gysylltiedig ag angladdau. Pan gaiff dulliau angladdol newydd eu rheoleiddio, cânt eu cynnwys yn y systemau trwyddedu hyn. O dan systemau, trwyddedau neu drwyddedau o’r fath, maent yn cael eu rhoi i ddarparwyr dulliau angladdol newydd unigol.

1.41 Ar hyn o bryd nid oes system drwyddedu ar gyfer claddu, amlosgi na gwasanaethau cysylltiedig yng Nghymru na Lloegr.

1.42 Yn y Papur Ymgynghori, fe wnaethom ni ofyn a ddylai proses drwyddedu fod yn rhan o'r gwaith manwl o reoleiddio dulliau angladdol newydd unigol yng Nghymru a Lloegr.

1.43 Mae'n bwysig sicrhau y bydd prosesau rheoleiddio manwl ar ddulliau angladdol newydd, cyn belled ag y bo modd, yn lleihau'r risgiau a allai godi o roi dulliau angladdol newydd ar waith. Mae angen goruchwylio, gan fod risg bosibl y gallai gweithredwyr ddefnyddio dulliau angladdol newydd mewn ffordd anniogel neu annerbyniol fel arall. Gallai proses drwyddedu ddarparu mesurau diogelu yn erbyn hyn. Gallai hefyd fod yn ffordd hyblyg o reoleiddio gwahanol amrywiadau o fewn dull angladdol newydd penodol. Fodd bynnag, mae sawl dadl yn erbyn trwyddedu, gan gynnwys y byddai gwahaniaeth yn cael ei greu rhwng rheoleiddio dulliau newydd a rhai sydd wedi ennill eu plwyf.

1.44 Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd gan ymgyngoreion a oedd o blaid proses drwyddedu oedd y byddai'n cynyddu ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd bod dulliau angladdol newydd yn cael eu rhoi ar waith yn briodol. Yn ein Hadroddiad, rydym yn dod i'r casgliad y byddai'n bosibl cyflwyno darpariaeth ar gyfer lefel debyg o oruchwyliaeth, er mwyn sicrhau digon o ddiogelwch a hyder y cyhoedd, heb y problemau posibl a allai godi o gael system drwyddedu ar gyfer dulliau angladdol newydd yn unig.

1.45 Felly, nid ydym yn gwneud unrhyw argymhellion ynghylch system drwyddedu yn yr Adroddiad. Mae rhagor o fanylion am y rhesymau dros hyn ar gael ym **Mhennod 2** yr Adroddiad.

### Egwyddorion

1.46 Yn ein Papur Ymgynghori, rydym yn nodi tair egwyddor sy'n sail i reoleiddio dulliau claddu ac amlosgi: diogelu'r amgylchedd, diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd, a diogelu urddas pobl. Fe wnaethom holi a ddylai fod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU roi sylw i'r egwyddorion hyn wrth gyflwyno unrhyw reoliadau am ddulliau angladdol newydd unigol. Roeddem hefyd wedi gwahodd sylwadau ar unrhyw egwyddorion pellach y dylid eu hystyried.

1.47 Ym **Mhennod 3** yr Adroddiad, rydym yn ystyried yr ymatebion i'r cwestiynau hyn ac yn archwilio'r egwyddorion ymhellach. Dywedodd mwyafrif sylweddol o'r ymgyngoreion y dylai deddfwriaeth sylfaenol fynnu bod y ddwy Lywodraeth yn ystyried y tair egwyddor wrth lunio is-ddeddfwriaeth am ddulliau angladdol newydd.

1.48 Nid oedd rhai ymgyngoreion yn credu y dylid cynnwys yr egwyddor o gadw urddas dynol, gan nodi y gallai hynny olygu gwahanol bethau mewn gwahanol gyd-destunau a diwylliannau, ac y gallai'r ystyr newid dros amser. Awgrymodd rhai ymgyngoreion y dylid egluro ystyr urddas dynol yn y ddeddfwriaeth ddrafft.

1.49 Yn yr Adroddiad, rydym yn cydnabod bod urddas dynol yn agored i ddehongliadau gwahanol, mewn gwahanol gyd-destunau. Ni fydd y ddeddfwriaeth yn gorfodi pobl i ddefnyddio unrhyw ddull angladdol penodol; bydd ganddynt ddewis. Wrth reoleiddio dull penodol, ni fyddai angen i Lywodraeth y DU na Llywodraeth Cymru, yn y drefn honno, sicrhau ei bod yn bodloni pob cysyniad posibl o urddas dynol. Fodd bynnag, rydym yn dod i'r casgliad y byddai'n fuddiol bod yn gliriach ynghylch ystyr yr egwyddor. Rydym yn egluro mai elfen graidd urddas dynol yng nghyd-destun penodol

rheoleiddio dulliau angladdol yw y dylid trin gweddillion dynol ag urddas. Bydd canolbwyntio ar yr elfen graidd hon yn rhoi mwy o eglurder na chyfeirio'n fwy cyffredinol at gadw urddas dynol.

1.50 Rydym yn argymell bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru ystyried pwysigrwydd y canlynol wrth gyflwyno rheoliadau am ddulliau angladdol newydd unigol: (1) diogelu'r amgylchedd; (2) diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd; a (3) trin gweddillion dynol ag urddas.

1.51 I ymateb i'n cwestiwn am egwyddorion eraill y dylid eu hystyried, awgrymodd ymgyngoreion fod materion yn cynnwys diogelwch, atebolrwydd, parch at arferion crefyddol neu ddiwylliannol, a lleihau straen i bobl mewn profedigaeth. Rydym yn rhagweld y bydd llawer o'r materion ychwanegol a awgrymwyd yn berthnasol pan fydd y rheoliadau'n cael eu llunio. Mae rhai ohonynt yn berthnasol i'r tair egwyddor a nodir yn y ddeddfwriaeth. Y tu hwnt i hyn, bydd angen i'r Llywodraethau perthnasol ystyried yr holl ffactorau perthnasol. Rydym yn dod i'r casgliad nad yw'n angenrheidiol nac yn briodol cyfeirio'n benodol at yr awgrymiadau eraill yn y ddeddfwriaeth ddrafft.

## Y PŴER RHEOLEIDDIO

### Cwmpas y pŵer i gyflwyno rheoliadau

1.52 Ym **Mhennod 4** o'r Adroddiad, rydym yn ystyried materion y gallai fod angen iddynt fod yn rhan o'r gwaith o reoleiddio dulliau angladdol newydd unigol, fel y gallwn sicrhau y bydd y pŵer i gyflwyno rheoliadau yn ddigon eang. Mae'r materion hyn yn cynnwys: agor a chau cyfleusterau; gweithredu a chynnal cyfleusterau; gweithdrefnau ymgeisio ar ran person ymadawedig; amgylchiadau lle na ellir defnyddio dull angladdol newydd penodol; gweddillion; a chyrff heb eu hadnabod.

1.53 Rydym yn trafod rhai elfennau penodol o'r pŵer ymhellach isod.

### Cofrestru

1.54 Rhaid cofrestru pob claddedigaeth ac amlosgiad. Mae hyn yn wahanol i gofrestru marwolaeth, er bod y ddwy system gofrestru yn rhyngweithio. Mae'r gofynion i gofrestru claddedigaeth wedi'u nodi mewn gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth ac maent yn amrywio yn dibynnu ar ble mae'n digwydd, boed hynny mewn mynwent awdurdod lleol, mynwent Eglwys Loegr, mynwent breifat, neu gladdfa arall. Mae'r gofynion i gofrestru amlosgiad wedi'u nodi yn Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008.

1.55 Mae system gynhwysfawr o gofrestru claddedigaethau ac amlosgiadau yn bwysig iawn. Mae'n sicrhau bod cofnod yn cael ei gadw a allai fod o werth o ran ymchwilio i droseddau. Gall hefyd fod o arwyddocâd ymarferol ac emosiynol i'r rheini sy'n olrhain hanes eu teulu. Mae sail resymegol gref dros sicrhau bod yn rhaid i bob defnydd o ddull angladdol newydd gael ei gofrestru yn yr un ffordd yn fras ag y mae cofrestru claddedigaeth neu amlosgiad ar hyn o bryd.

1.56 Ym **Mhennod 4** o'r Adroddiad, rydym yn argymell y dylai deddfwriaeth sylfaenol ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru, wrth wneud rheoliadau am ddulliau angladdol newydd, gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol cofrestru'r defnydd o ddull angladdol newydd. Mae'r ddyletswydd i gofrestru

amlosgiad wedi'i nodi mewn is-ddeddfwriaeth, ac rydym o'r farn ei bod yn briodol i ddulliau angladdol newydd gael eu rheoleiddio yn yr un ffordd.

1.57 Rydym hefyd yn argymell bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru nodi manylion ynghylch pwy fydd yn cofrestru, a sut, pryd a ble mae'n rhaid iddynt wneud hyn, mewn is-ddeddfwriaeth. Bydd hyn yn galluogi gofynion cofrestru priodol ar gyfer dulliau angladdol newydd pan fyddant yn cael eu rheoleiddio, gan sicrhau bod modd teilwra hyn i bob dull.

## Monitro a gorfodi cydymffurfiaeth

### Goruchwyliaeth effeithiol

1.58 Bydd angen i system effeithiol o oruchwylio dulliau angladdol newydd sicrhau y gellir monitro cydymffurfiaeth â'r rheoliadau ac y gellir cymryd camau os bydd pethau'n mynd o chwith.

1.59 Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru yn rheoleiddio dull angladdol modern, bydd yn rhaid iddynt hefyd wneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer monitro a gorfodi cydymffurfiaeth sy'n briodol yn eu barn hwy. Caiff y rheoliadau gynnwys pwerau i'w gwneud yn ofynnol i rywun fod yn bresennol mewn lleoliad i ateb cwestiynau, pwerau mynediad, chwilio, ymafael neu gadw, a phwerau i ddatgymalu cyfleusterau neu gymryd samplau o sylweddau.

### Arolygiadau

1.60 Bydd arolygiadau'n allweddol i sicrhau system effeithiol o oruchwylio dulliau angladdol newydd, gan gynnwys gallu monitro cydymffurfiaeth. Rydym yn argymell, pan wneir rheoliadau am ddulliau angladdol newydd unigol, bod yn rhaid i'r rhain gynnwys darpariaeth ynghylch archwilio cyfleusterau, gan gynnwys penodi arolygydd.

### Troseddau

1.61 Ar hyn o bryd mae'n drosedd mynd yn groes i gyfraith amlosgi. Byddai modd nodi trosedd debyg ar gyfer dulliau angladdol newydd yn ein Biliau drafft. Fodd bynnag, byddai gwneud hynny'n golygu y byddai'r drosedd hon yn cael ei chreu cyn gwybod pa ddulliau angladdol newydd yr oedd y drosedd yn ymwneud â nhw neu gynnwys y rheoliadau sy'n llywodraethu'r broses o ddefnyddio'r dulliau hynny. Efallai na fydd unrhyw ffordd o wahaniaethu ymlaen llaw rhwng achosion o dorri amodau y byddai cosb droseddol yn briodol ar eu cyfer, a'r rhai na fyddai'n briodol ar eu cyfer.

1.62 Fel arall, pe bai gan y Llywodraethau perthnasol y pŵer i greu troseddau mewn is-ddeddfwriaeth, byddai modd iddynt wneud penderfyniadau gwybodus am gwmpas priodol pob trosedd a'r gosb uchaf gysylltiedig ym mhob achos, yn dibynnu ar ddull a natur y troseddau newydd.

1.63 Gall pwerau o'r fath fod yn ddadleuol ond gellir eu cyfiawnhau lle maent wedi'u cyfyngu i ddibenion penodol, megis torri rheoliadau. Mae arfer seneddol wedi ennill ei phlwyf o ganiatáu creu troseddau mewn is-ddeddfwriaeth, i gyd-fynd â phwerau i reoleiddio cyflawni gweithgareddau a allai fod yn beryglus, er mwyn hyrwyddo budd y cyhoedd neu amddiffyn diogelwch y cyhoedd, a rhoi'r pwerau hynny ar waith. Rydym o'r farn y byddai'r pŵer yn yr achos hwn yn gyson â'r arfer hwn.

1.64 Rydym yn argymell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael y pŵer i greu troseddau newydd mewn is-ddeddfwriaeth o dorri rheoliadau am ddulliau angladdol newydd unigol.

1.65 Er mwyn helpu i leddfu pryderon bod y Llywodraethau perthnasol yn cael pŵer dirwystr i greu troseddau newydd, rydym yn argymell y dylai uchafswm cosb (dirwy ar lefel 3 ar y raddfa safonol, sef £1,000 ar hyn o bryd) am gyflawni troseddau o'r fath gael ei nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol.

1.66 Rydym hefyd yn argymell y dylid cael pŵer cyfatebol i wneud rheoliadau sy'n rhoi pŵer i osod cosbau sifil (ariannol), fel dewis arall yn lle trosedd. Bydd hyn yn sicrhau ymhellach y gellir defnyddio'r pwerau'n hyblyg fel bod cosbau priodol yn cael eu gosod.

### Gweithdrefnau seneddol ar gyfer rheoliadau

1.67 Bydd rheoliadau a wneir ynghylch dulliau angladdol newydd yn cael eu nodi mewn offeryn statudol (OS). Dylai deddfwriaeth sylfaenol sy'n cynnwys pŵer i wneud OS nodi lefel y rheolaeth seneddol y dylai fod yn ddarostyngedig iddi.

1.68 Ym **Mhennod 4** o'r Adroddiad, rydym yn ystyried pa weithdrefn fyddai fwyaf priodol ar gyfer gwahanol reoliadau a wneir o dan y pwerau yn y Biliau drafft.

1.69 Rydym yn argymell y dylai gweithdrefnau estynedig, gyda lefel uchel o graffu seneddol, fod yn berthnasol y tro cyntaf y caiff rheoliadau eu cyflwyno am ddull angladdol newydd unigol. Bydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru wneud penderfyniadau anodd, a allai fod yn ddadleuol, ynghylch a ddylid rheoleiddio dull angladdol newydd penodol ai peidio, a phenderfynu sut y dylid ei ddiffinio. Mae'n ymddangos yn briodol y dylai'r math uchaf o graffu fod yn berthnasol pan fydd dull yn cael ei reoleiddio am y tro cyntaf. Bydd y gweithdrefnau estynedig yn galluogi pwyllgorau yn y Senedd, neu Senedd y DU, i ystyried rheoliadau drafft ac argymell gwelliannau, y mae'n rhaid i'r Llywodraeth berthnasol eu hystyried.

1.70 Rydym yn argymell y dylai rheoliadau a wneir ar faterion sylweddol penodol (ar ôl rheoleiddio dull penodol i ddechrau) fynnu defnyddio gweithdrefn gadarnhaol ddrafft/cymeradwyo'r Senedd. O dan y gweithdrefnau hyn, rhaid i'r OS gael ei gyflwyno i'r Senedd ar ffurf drafft, a dim ond ar ôl iddo gael ei gymeradwyo y gall ddod yn gyfraith. Yn benodol, rydym yn argymell bod yn rhaid defnyddio'r gweithdrefnau hyn ar gyfer darpariaethau sy'n creu troseddau, yn darparu ar gyfer treialon, ac yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Rydym hefyd yn argymell bod y gweithdrefnau hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer rheoliadau sy'n rhoi pwerau mynediad, a phwerau cysylltiedig, lle nad oes pwerau o'r fath eisoes yn bodoli (er enghraifft, yng nghyswllt dull arall).

1.71 Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru yn gwneud datganiad ei bod yn angenrheidiol ar frys er budd iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch y cyhoedd, rydym yn argymell y gellir gwneud unrhyw reoliadau a fyddai fel arfer yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol neu weithdrefn gymeradwyo'r Senedd (gan gynnwys gweithdrefnau estynedig) gan ddefnyddio gweithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' neu weithdrefn gymeradwyo'r Senedd. O dan y gweithdrefnau hyn, bydd y rheoliadau'n cael eu "gwneud" (eu llofnodi'n gyfreithiol gyda dyddiad penodol ar gyfer

dod i rym) cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Senedd. Fodd bynnag, dim ond ar ôl cael cymeradwyaeth y Senedd y gallant ddod yn gyfraith, neu barhau'n gyfraith.

1.72 Rydym yn argymell y dylai rhai rheoliadau fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, sy'n golygu llai o graffu gan y senedd. Yn gyntaf, mae'r rheoliadau hyn yn cael eu "gwneud" (eu llofnodi yn ôl y gyfraith gyda dyddiad penodol ar gyfer dod i rym) ac yna'n cael eu cyflwyno i'r Senedd (eu gosod gerbron y Senedd). Byddant wedyn yn parhau'n gyfraith, neu'n dod yn gyfraith, os bydd 40 diwrnod yn mynd heibio heb benderfyniad gan y Senedd i ddirymu'r OS. Bydd hyn yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng sicrhau cymeradwyaeth seneddol a galluogi diwygio'r rheoliadau'n gyflym lle bo angen, heb gymryd amser seneddol.

1.73 Mae rhagor o fanylion am ein hargymhelliad ar weithdrefnau seneddol ar gael ym **Mhennod 4** yr Adroddiad drafft.

## STATWS DULLIAU ANGLADDOL NEWYDD SYDD HEB EU RHEOLEIDDIO

### Gwahardd defnyddio dulliau angladdol newydd sydd heb eu rheoleiddio

1.74 Ar hyn o bryd nid oes gwaharddiad penodol ar ddefnyddio dulliau angladdol newydd. Er y gallai'r ddeddfwriaeth bresennol ar gofrestru marwolaethau wneud defnyddio dulliau angladdol newydd yn drosedd, nid yw hyn yn glir ac nid oes cyfraith achos arni.

1.75 Bydd fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoleiddio dulliau angladdol newydd yn rhoi sicrwydd i ddarparwyr ynghylch sut gallant ac y dylent weithredu, ac yn helpu'r cyhoedd i fod yn hyderus bod dulliau angladdol newydd yn cael eu rheoleiddio'n briodol. Ym **Mhennod 5** yr Adroddiad, rydym yn ystyried statws dulliau angladdol newydd nad ydynt yn cael eu rheoleiddio o dan y fframwaith newydd.

1.76 Pe na bai gwaharddiad ar ddefnyddio dulliau angladdol heb eu rheoleiddio, byddai'n bosibl i rai dulliau gael eu rheoleiddio'n llym tra gellid defnyddio unrhyw rai nad ydynt wedi cael eu rheoleiddio heb bron dim cyfyngiadau. Gallai hyn greu annhegwch a diffyg gwarchodaeth i bobl sy'n defnyddio dulliau heb eu rheoleiddio.

1.77 Roedd rhai ymgyngoreion yn poeni y gallai gwaharddiad o'r fath lesteirio arloesedd drwy atal treialon o ddulliau angladdol newydd. Rydym yn trafod treialon ymhellach ym mharagraffau 1.83 i 1.86 isod.

1.78 Rydym yn argymell y dylid gwahardd defnyddio dulliau angladdol newydd nad ydynt yn cael eu rheoleiddio (neu sy'n cael eu cynnal fel rhan o dreial cymeradwy). Bydd hyn yn amddiffyniad pwysig rhag gweithrediad a allai fod yn anghyfrifol neu'n beryglus o ddulliau angladdol newydd sydd heb eu rheoleiddio. Bydd yn dod ag eglurder i'r gyfraith ac yn helpu i ennyn hyder y cyhoedd yn y gwaith o reoleiddio dulliau angladdol newydd.

### Trosedd yn sgil defnyddio dull angladdol newydd nad yw'n cael ei reoleiddio

1.79 Ym **Mhennod 6**, rydym yn ystyried y sancsiwn priodol am dorri'r gwaharddiad ar ddefnyddio dulliau angladdol newydd nad ydynt yn cael eu rheoleiddio. Rydym yn dod i'r casgliad y dylai torri'r gwaharddiad fod yn drosedd.

1.80 Yn ein Papur Ymgynghori, roeddem yn gofyn am farn ynghylch a ddylai'r gosb uchaf am y drosedd hon fod yn gyfnod o garchar. Yn ein Hadroddiad, rydym yn ystyried ymhellach y cosbau ar gyfer rhai troseddau presennol a allai olygu methu trin gweddillion dynol ag urddas ac sydd â'r potensial i achosi trallod sylweddol i'r cyhoedd. Mae'r rhain yn golygu datgladdu corff yn anghyfreithlon, neu ddefnyddio corff person ymadawedig at ddibenion fel ymchwil neu arddangos yn gyhoeddus heb gydsyniad, a gallai'r naill a'r llall arwain at garchar am hyd at dair blynedd.

1.81 Rydym yn dod i'r casgliad y gallai'r niwed posibl a allai ddeillio o'r drosedd newydd o ddefnyddio dull angladdol newydd nad yw'n cael ei reoleiddio fod yn debyg mewn achosion eithafol. Gallai rhywun sy'n euog o'r drosedd newydd fod wedi defnyddio dull gwaredu a allai achosi difrod amgylcheddol, perygl i iechyd y cyhoedd a thrallod eang. Gallai hefyd arwain at drin gweddillion dynol yn ddiurddas.

1.82 Rydym yn argymell y dylai fod yn drosedd defnyddio dull angladdol newydd nad yw'n cael ei reoleiddio na'i gynnal fel rhan o dreial wedi'i awdurdodi, ac y dylai carcharu (am gyfnod o hyd at dair blynedd) fod yn gosb bosibl am y drosedd hon, yn ogystal â dirwy.

### Treialon dulliau angladdol newydd

1.83 Fel y nodir uchod, rydym yn argymell y dylid gwahardd defnyddio dulliau angladdol newydd nad ydynt yn cael eu rheoleiddio o dan y fframwaith, ac y dylai torri'r gwaharddiad hwn fod yn drosedd. Fodd bynnag, efallai y bydd angen treialu dulliau newydd sy'n cael eu datblygu cyn eu bod yn barod i gael eu rheoleiddio'n llawn fel dull angladdol newydd.

1.84 Gall treialon helpu i dynnu sylw at faterion allweddol ac felly benderfynu ar gynnwys rheoleiddio manwl am y dull yn y dyfodol. Gallai treialon hefyd helpu hyder y cyhoedd. Efallai y bydd pobl yn fwy agored i ddefnyddio dull angladdol newydd sydd wedi bod drwy dreial ac wedi dangos bod y dull yn ddiogel ac yn effeithiol. Heb ddarpariaeth benodol i alluogi treialon i ddigwydd, gellid llesteirio arloesedd.

1.85 Byddai treialu dull angladdol newydd yn anarferol. Rydym o'r farn y byddai'n briodol cael cydsyniad cyn defnyddio corff mewn treial o ddull angladdol newydd, cyn marwolaeth, gan y person y mae ei gorff i gael ei ddefnyddio. Byddai'r sefyllfa'n debyg i'r un ar gyfer archwiliad anatomegol, arddangosiad cyhoeddus, trawsblannu ac ymchwil a allai gael ei awdurdodi gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol, lle mae angen cydsyniad hefyd.

1.86 Rydym yn argymell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael y pŵer i gyflwyno rheoliadau sy'n nodi sut y gellir cymeradwyo a chynnal treialon o ddulliau angladdol newydd. Rhaid i'r rheoliadau hyn ei gwneud yn ofynnol i gorff person gael ei ddefnyddio mewn treial o ddull angladdol newydd dim ond os yw'r person hwnnw wedi cydsynio i hyn cyn ei farwolaeth.

## DIWYGIADAU I DDEDDFWRIAETH BRESENNOL

1.87 Ym **Mhennod 7** yr Adroddiad, rydym yn egluro sut bydd angen diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol i sicrhau y bydd y system reoleiddio yn gydlynol ac yn

rhyngweithio’n briodol â’r gyfraith bresennol a’r systemau rheoleiddio ar gyfer dulliau angladdol sydd wedi ennill eu plwyf.

1.88 Rydym yn gwneud argymhellion am ddiwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol lle bydd y rhain yn berthnasol i bob dull angladdol newydd. Mae hyn yn cynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth ar gofrestru marwolaethau ac iechyd y cyhoedd. Ein bwriad wrth argymell y diwygiadau hyn yw y dylid trin dulliau angladdol newydd sy’n cael eu rheoleiddio yn yr un ffordd â chladdu ac amlosgi, lle bo hynny’n bosibl.

1.89 Rydym hefyd yn argymell y dylai fod gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru bŵer i wneud diwygiadau pellach i ddeddfwriaeth ynghylch claddu ac amlosgi mewn rheoliadau. Bydd hyn yn golygu bod modd gwneud diwygiadau na ellir eu rhagweld ar hyn o bryd, lle gallai’r ddeddfwriaeth fod yn berthnasol i rai dulliau angladdol newydd (ond nid pob un o reidrwydd).

## CASGLIAD

1.90 Mae’r argymhellion yn ein Hadroddiad, ynghyd â’r Biliau drafft, yn darparu fframwaith deddfwriaethol cynhwysfawr ar gyfer rheoleiddio dulliau angladdol newydd unigol yn effeithiol yn y dyfodol.

1.91 Mater i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn awr yw ystyried argymhellion Comisiwn y Gyfraith ac ymateb iddynt.